YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 1.] IONAWR, 1922. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

DIWEDD BLWYDDYN.

TREM AR Y BYD A'I DDIG-WYDDIADAU.

SANTA CLAUS.

DEWINIAETH.

BRASLUN O'R GWERSI.

MARWGOFION

MANION AC HANESION.

Llandyssul:

Argrafwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 4s. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

J.T., Evelench; D.D., Lampeter; Mrs. E., Oakford; Mrs. R.D.R., Neath; E.J., Abergorlech; E.J.T., Swansea; G.T., Prendergast; Mrs. J., Llandilo; Mrs. D., Dolbante; T.J., Cilau Aeron; J.J., Crosshands; G.J., Castell Elwyn; Mrs. D., Plasycoed; J.M., Blaengwynfi; D.T., Tylorstown; Mrs. D.T., Blaengwynfi; J.D.D., Cwmgwrach; D.M.D., Aberaman; D.E.B., Llwyneinon; Dr. D.J.D., Aberystwyth; Miss D., Maesllwyd; Mrs. D.J.T., Cribyn; D.D., Felinfach; Dr. L., Llanon; Miss L., Dowlais; Parch. J.D., Rhyl; Parch. E.E.J., Bolton; Mrs. J., Maesllyn; J.T., Vrondolay; J.J., Neath; Mrs. E., Aberdare; Mrs. D., Ffairfach; J.R., Maesymeillion; R.Ll., Georgetown; P.P., Cwmbach; Mrs. J.D., Unity Cottage; L.J., Bedlinog; G.S.D., Felinfach; E.J., Rhydsais.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1922. [CYF. XXII. RHIF I.

AR ADEN FFYDD.

DAIONI A THRUGAREDD A'M CANLYNANT HOLL DDYDDIAU FY MYWYD.

(M.B.C.)

RWY'N teimlo'th fod, O Dad,
Yn gariad digyfnewid ;
O lawnder hael dy dyner law,
Fy nghysur ddaw trwy'm bywyd.

Yn faban yn fy nghryd,
Ces di o hyd i'm cynnal,
Ac yn mwynderau'm ienctid llon,
Mor dirion bu dy ofal.

Dan feichiau blin y byd,
Mewn adfyd ti'm cynhaliaist,
Ac am bob cur amgylchai'm ffyrdd,
Bendithion fyrdd a roddaist.

Mae'r ddae'r yn hyfryd iawn—
Pob peth yn llawn o harddwch ;
Dy roddion rhad i bawb o'th blant,
Fynegant dy dynerwch.

Y bywyd sydd yn awr,
Dy gariad mawr amlyga ;
Pob dawn fwynhaf dy brofi wna
Yn gyfaill ni ddiffygia.

Hyn fydd fy ngobaith gref,
Pan adref âf i orffwys ;
Dy gariad fydd fy mythol gân
Yn hedd dy lân baradwys.

CEREDIG.

DIWEDD BLWYDDYN.

GAN ANTHROPOS.

I.

YMAE cysgodion diwedd blwyddyn wedi dod, ac yn naturiol, daw meddyliau lawer i'w canlyn. Deiliaid amser a lle ydym i raddau mawr, ac ar adegau, y mae pwyslais y naill a'r llall yn drymach wrth nesu atom. Gallwn fynd heibio ambell le yn eithaf didaro. Nid oes nemawr gyfathrach rhyngom ag ef. Ond am ryw le arall—nis gellir mynd ato na thrwyddo heb i hynny beri rhyw gyffro yn y meddwl. Y mae ein hymddygiad ar adegau o'r fath yn dod yn fynegiad o'r hyn ydym. Dim ond cip-drem yn y tren, ond dyna'r dyn yn codi at ffenestr y cerbyd, ac yn syllu ar y bwthyn, neu y pentre, fu yn hoffter ei galon yn y dyddiau a fu. Nis gall basio heb fradychu ei deimladau, canys y mae'r lle hwnnw wedi ei gydblethu ag adgofion anniflan bore oes.

II.

Yr un modd gydag amser. Gellir mynd trwy aml i orsaf heb feddwl na sylwi nemawr ar y manylion. Ond pan fo trên bywyd yn neshau at ddiwedd blwyddyn yr ydym yn codi i'r ffenestr, ac yn edrych allan.

"Treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl," ebai'r Salmydd Hebraeg—fel stori yn cael ei hadrodd fin nos wrth y tân. A dyma bennod arall o'r stori honno yn ymyl gorffen, Nid yr un fath a'r bennod oedd yn ei blaenori. Y mae yna ryw newydd-deb ac amrywiaeth yn y "chwedl" hon sydd yn parhau drwy'r blynyddoedd. Ac y mae gan bob bywyd ei stori ei hun, ac nid ydyw yn bod yr un fath yn hanes neb arall. Onid Charles Dickens fyddai yn anfer dweyd fod gan bob dyn ryw un stori y byddai yn werth ei hadrodd a'i hysgrifennu hefyd? Ond, ysywaeth, nid yw y sawl a bia'r stori, yn fynych yn abl i ddweyd. Rhaid iddi aros yn ei enaid ef ei hun, ac y mae'n fwy na phosibl mai chwedlau rhyfeddaf bywyd dyn ydyw y storiau sydd heb eu dweyd.

III.

Ac eto, ar ddiwedd blwyddyn, y mae pethau o'r fath yn dod yn nes i'r wyneb. Daw y mwyaf tawedog yn hyawdl yn yr adeg hon, a datodir rhwymau ei dafod. Rhyw gyffyrddiad ydyw, fel hudlath y swynwr. Y mae Amser, megis, yn ein troi i fyd barddoniaeth am ennyd, a daw y "stori" yn fyw.

IV.

Rhyw "aderyn brith" ydyw stori bywyd, erbyn heddyw. Y mae'r gwyn a'r du wedi ymgymysgu a'u gilydd, ac yn gweddnewid

wrth edrych arnynt. Ond y mae dau fath o "fritho" yn bod. Y mae'r gwallt yn britho i gyfeiriad gwynder—

"Gwyro mae'm moel goryn
At lawr allt dan y gwallt gwyn."

Nid difyr ydyw hynny, ac yr ydym yn adgofio'r dyddiau pan oedd y gwallt yn "ddu fel y fran." Ond ar randir bywyd yr ydym yn hoffi yr hyn sydd yn "britho" at y gwyn. Ac onid oes ambell bluen wen yn aden yr "aderyn brith?" Ac at honno yr ydym yn troi ein golygon ar ddiwedd blwyddyn—y bluen wen. Gwyddom am yr ochr ddu a thywyll, ond pa fudd ydyw galw sylw ein gilydd at y pethau hyn? Gwell i ni ydyw gwneud cyngor y bardd—

"Rhoi y dydd i bobl eraill
Cadw'r nos i mi fy hun."

Ond fel yna y mae awen Cymru wedi trafod yr adeg hon yn fwyaf mynych. Penawd y gân ydyw "Marwnad y Flwyddyn," a cheir awel leddf yn crwydro drwy y meddyliau. "Telyneg" ar ddechreu blwyddyn, a "marwnad" ar ei diwedd. Hawdd ydyw mynd i'r cywair hwnnw, ond dylai yr oll fod yn ddiffuant a diragrith.

V.

Gall blwyddyn fod yn destyn diolch o'i dechreu i'w diwedd, "and all is well that ends well." Yr ydym wedi cael nerth yn ol y dydd, ac wedi glynu wrth y cerbyd dros "arw bant a bryn," mewn storm a hindda—

"Something attempted, something done,
To earn a night's repose."

A phe gofynnid i rai ohonom ar ddiwedd blwyddyn am "gyffes ein ffydd," yr wyf yn credu mae'r llinellau uchod ydyw y "gyffes" sydd yn cael adlais feunyddiol yn nyfnderoedd ein bywyd. Hoffem ddal ati tra y pery'r dydd—nid i ennill elw na chlod, ond i ennill yr hawl i orffwys yn rhywle yng Nghymru fynyddig. Y mae cryn nifer fu yn gymdeithion llenyddol ar faes newyddiadur a chylchgrawn wedi ymado, ond nid i "dir anghof."

VI.

Ar ddiwedd blwyddyn ymrithiant i'n gwyddfod, yn oriau cyfrin yr hwyr, ac yng ngoleu'r fflam. Frodyr cu! mor dda fuasai gennyf gael ymgom gyda chwi fel yn y dyddiau gynt! Son am fod yn bruddglwyfus yn yr oriau hynny! Yr oedd y peth yn amhosibl. Onid wyf yn clywed eich chwerthiniad iach, a'r stori oedd yn fwy dyddorol na'r "Arabian Nights." A oes storiau felly yn bod yn awr? Nid wyf yn eu clywed. Y mae rhyw don feirniadol wedi dod i mewn i ymddiddanion, yn ogystal a llyfrau y cyfnod hwn. Y mae'r "difyr" wedi ei alltudio i roddi lle i'r "galluog," a'r "dysgedig." Gan gofio, frodyr hoff, yr oedd rhai ohonoch chwithau yn arfer "adolygu" llyfrau ac awduron. Ond nid cynhal "trengholiad" ar y cyfryw rai

oedd eich arfer chwi. Nid yn myd bach yr "orgraff" yr oeddych yn treulio eich amser a'ch nerth. Pe yn fyw heddyw, buasai yn rhaid i chwi astudio'r "clasuron," a son llai am "athrylith" a "drychfeddyliau." Eich gwendid, meddir, ydoedd canmawl gormod, a bod yn rhy hael ar eich ansoddeiriau. Ond cawsoch amser dedwydd, ac y mae ambell "swyddfa" wedi mynd yn lle oer ryfeddol ar ol i chwi fynd i ffwrdd. Pan fyddai rhai ohonoch chwi yn ysgrifennu eich "Trem ar y Flwyddyn," o gadair golygydd, gallesid meddwl wrth ddarllen eich erthyglau, mai honno oedd y flwyddyn hynotaf er creadigaeth y byd!

VII.

Beth a ddywedasech am y flwyddyn 1921? A fuasai gennych folawd ar lenyddiaeth y flwyddyn, yn ol eich arfer. Yn y flwyddyn hon y cyhoeddwyd gwaith gorchestol y prif-fardd ———. Gwaith sydd wedi gosod yr awdur ar restr yr anfarwolion. Gofod a balla i ni son am y cyfrolau swllt yng nghyfres y "Wawr."

Na, ni fuasai pethau o'r fath yn weddus heddyw. Y mae llyfrau "swllt" wedi mynd i ebargofiant, a'r pris isaf heddyw am lyfrau o'r fath ydyw "tri a chwech." Y mae pris barddoniaeth wedi codi, a'r beirdd "coronog" yn gwneyd eu ffortiwn. Nid "rhwng daear y doeth a gwlad hud" y mae poetau yr ugeinfed ganrif yn preswylio, ac nid ydynt yn byw ar "obaith, anrhydedd a chlod." Y mae pethau wedi newid, a "safon cyflog" y bardd a'r beirniaid wedi cyrhaedd rhyw diriogaeth fwy sylweddol na'r hyn oedd yn bod yn eich amser chwi. Yr isaf ei bris oedd yn mynd a hi yn y dyddiau hynny; ac onid oedd rhai brodyr, yn eu hawydd i fod yn feirniaid llenyddol, yn eithaf parod i wneyd y gwaith am ddim?

VII.

Y mae'r byd yn mynd yn ei flaen, yn sicr, i chwi, a "Marwnad y Flwyddyn" wedi rhoddi lle i'r "soned" soniarus a pher ei pharabl. Ond y mae hiraeth am danoch yn dod gydag awel y cyfnos. Ond fyddai gennych "englyn" newydd ddod allan o'r *mint*, ac oni fedrech ei adrodd gydag urddas a blas? Yr wyf yn cofio eich goslef, a'r syndod yn eich llygaid wedi i chwi gael gafael ar ryw "gynghanedd" oedd wrth eich bodd. Ac wrth feddwl am danoch, daw englyn Trebor Mai yn annerch Taliesin o Eifion i'r cof, wedi iddo gyfansoddi ei folawd i'r ser—

"O! Dal, Dal, wedi helynt—oes,
A gawn ni fyned drwyddynt,
A gwau englynion fel gynt,
Yn y wledd tu ol iddynt?"

TREM AR Y BYD A'I DDIGWYDDIADAU.

'AR y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da.' Yn ol Luc, rhan o gân y bugeiliaid adeg geni Iesu yw'r geiriau hyn. Ynddynt, fe geir, yn gyntaf, fynegiad o ddyhead (o obaith) am heddwch ac ewyllys da; yn yr ail le, fe geir ynddynt ddatganiad o gred mai trwy'r baban y sonir am dano yn y cysylltiadau y sylweddolid y gobaith. Fe welai'r awdur, yng ngeiriau Watcyn Wyn: 'o bell y dydd yn dod, bydd pob cyfandir îs y rhod, yn eiddo Iesu mawr' —yr holl ddrygau i gyd (ymrysonau a rhyfeloedd yn eu plith) wedi diflannu oddiar y ddaear.

* * * *

Dyna ddelfryd Cristionogaeth Iesu—cyflwr o heddwch ac ewyllys da. Hoffwn bwysleisio'r ymadrodd 'Cristionogaeth Iesu'; oblegid nid Cristionogaeth Iesu yw llawer o'r hyn elwir yn Gristionogaeth. Delfryd Cristionogaeth Iesu yw hon—y cyflwr hwn o heddwch ac ewyllys da. Dyna beth oedd Iesu—cenhadwr heddwch ac ewyllys da. Cariad oedd un o elfennau hanfodol ei addysg—cariad cyffredinol—rhwng dyn a dyn, rhwng cenedl a chenedl. Heb gariad y mae heddwch yn amhosibl.

* * * *

Am hir oesau llais yn galw'n ofer fu llais Iesu. O daflu golwg dros hanes y deunaw canrif diweddaf, beth welwn? Fe welwn un afon bron didor o waed dynol yn llifo drwy'r gwledydd. Dyma osodiad na faidd neb eu ameu; pe tynnid allan o hanes Prydain Fawr hanes ei rhyfeloedd am (dweder) y deunaw canrif diweddaf, dim ond ychydig iawn o hanes fyddai ar ol. Dyna'r ffaith am bobun o wledydd Ewrop. Y mae hyn yn wir hyd at ein dyddiau ni; oblegid nid ydym ond newydd ddod allan o un o ryfeloedd mwyaf dinystriol a barbaraidd hanes. Fe ddwg hyn adref atom cyn lleied o sylw dalwyd gan Gristionogion i un rhan hanfodol o genadwri Iesu. Fe anrhydeddid ei enw, fe bentyrrid arno bob math ar deitlau urddasol; eithr fe anwybyddid ei genadwri, fe ddiffoddid ei ysbryd, fe gollid golwg ar un o'i ddelfrydau pennaf. Pan y deffroir yr hen Adda a lecha yn y galon, fe ddiflanna Iesu drwy'r drws. Ni all y ddau gydfyw yn yr un galon.

* * * *

Oes gobaith y rhoddir iddo well gwrandawiad rywbryd. Oes, y mae gobaith—gobaith y daw ei ddydd ef. Y mae'r gobaith hwn wedi para'n fyw yng nghalon y goreon o'r ddynoliaeth trwy'r oesau. Wn i ddim a ellir anturio dweyd y gwelir arwyddion gwan fod ei ddydd ef wedi dechreu gwawrio; fod y byd dynol, ar ol gweled o

hono ganlyniadau dinystriol ac erchyll rhyfel, wedi ei argyhoeddi o ffolineb rhyfeloedd. O leiaf, fe ellir dweyd hyn, mai newyddion a lonnant galon pob carwr heddwch yw'r newyddion diweddar o'r Amerig. Newyddion ydynt o natur hollol newydd. Peth hollol newydd yw'r ymgais ar du'r cenhedloedd i gyfyngu'r ddarpariaeth o arfau rhyfel a llyngesoedd. Rhyw ysfa anniwall i fod ar y blaen y naill ar y llall mewn nerth milwrol sydd wedi meddiannu'r cenhedloedd hyd yma. Llawenychwn o weled arwyddion o doriad gwawr amser gwell.

* * * *

Soniais am obaith. Ein gobaith yw fod amser gwell wedi dechreu gwawrio—*dechreu* gwawrio, sylwer. Eithr na ddisgwyliwn ormod. Ni ddaw chwyldroadau mewn amrantiad. Ni ellir diwreiddio mewn byr amser yr anian a achosa anghydwelediadau ac ymrysonau a rhyfeloedd. Ni ellir diffodd teimladau chwerw, gelyniaethus ar unwaith. Rhaid i'r natur ddynol gael ei thrwytho'n drwyadl â meddyliau ac â theimladau, ac a delfrydau gwell. Cyfystyr yw hyn a phe dwedwn y rhaid i Iesu gael mwy o le yng nghalon y ddynoliaeth. Ynddo ef y mae ein gobaith gore—ein hunig obaith.

* * * *

Nid digon gobaith yn unig, fodd bynnag; troi'r gobaith yn ffaith sydd eisiau. Meddai Esaia yn agos i dair mil o flynyddoedd yn ol, 'Hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau; ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl; ac ni ddysgant ryfel mwyach.' Iaith gobaith, iaith y proffwyd yw hon. Dyna beth ydyw heddyw—i ni fel i Esaia gynt. Ond fe all y gobaith gael ei sylweddoli, a'r broffwydoliaeth ddod i ben. Sut? Trwy ymdrech dyn, trwy fod pob dyn unigol a broffesa enw Iesu yn fyw i'w cyfrifoldeb i fod ar du heddwch, i ddal i fyny freichiau'r ychydig a lafuriant yn erbyn rhyfel, a thros heddwch. Ydym ni, Gristionogion Prydain Fawr mor fyw i'n cyfrifoldeb ag y dylem fod?

* * * *

Pan yn ysgrifennu'r llinellau hyn nid yw'n hysbys pa dderbyniad roddir gan y Senedd Wyddelig i'r cynllun newydd i sicrhau heddwch rhwng yr Iwerddon a Phrydain Fawr. Gan nad pa dderbyniad roddir iddo ni all dim ddiffodd yr ysbryd newydd ffynna ymhlith trigolion Prydain Fawr—y gydnabyddiaeth agos unfrydol (mor agos i unfrydedd ag y gellir disgwyl mewn poblogaeth o dros ddeugain miliwn) na ellir ennill yr Iwerddon ond trwy gydymdeimlad ac ewyllys da. Hanes du iawn yw hanes ymddygiad Prydain Fawr tuag at yr Iwerddon am y saith can mlynedd diweddaf. Ac nid syndod ydyw y meddiennir y mwyaf o drigolion yr Ynys Werdd gan deimladau chwerw, gelyniaethus, tuag at Brydain. Ein gobaith ydyw ein bod ar ddechreu cyfnod mwy dymunol yn y berthynas rhwng y ddwy wlad.

SANTA CLAUS.

[Neu Dri Chyfnod.]

I.

'Never deny the babies their Christmas! Let them believe in Santa Claus, or St. Nicholas, or Kriss Kringle, or whatever name the jolly Dutch saint bears in your religion.'

O fewn awr i'r Nadolig trois yn flinedig i orffwys, ond anesmwyth ddigon y bu. Ni wn paham. Yr oeddwn fel pob plentyn mawr a bach hwyrach, yn llawn o'r Nadolig cyn ei ddyfod, a hir yw pob disgwyl, ond rywbryd wedi hanner nos, a minnau ar y clawdd terfyn, rhwng cwsg ac effro, canfûm Santa Claus am y tro cyntaf yn fy myw. Yr oeddwn wedi clywed ei enw droion heb ddychymyg am dano. Chwareuai goleu llwyd-welw ar y ffenestr, ac yn y goleu gwan y'i gwelais. Ni fedrwn symud llaw na throed. Safai ar fy nghyfyl, ac yr oedd yn edrych yn hen. Mor grymedig ei wàr, ac mor aflonydd oedd ei ên. Pwysai'n drwm ar ei ffon, ond yr oedd ei lygad yn garedig. Yr oedd ei wallt fel y gwlan, a'i farf cyn wynned a'r eira, ond ni fedrwn dynnu fy ngolwg oddiar ei gydyn rhoddion, ac o feddwl, yr oedd y cŵd fel gwydr. Gwelwn yno bob math o deganau nes codi rhyw hiraeth ynof am fod yn blentyn eilwaith. Beth a geisiwn gynt am feddiannu'r ganfed ran o'i deganau. Yr oeddent yn ddigon i'w dyrysu. Edrychai o gwmpas yn araf fel pe chwiliai am hosan i'w llanw, ond symudais i'w dangos iddo. Diflannodd, ac aeth y lleuad dan gwmwl. Ni fedraf ei esbonio. Ni cheisiaf, ond gan na fedr undyn dynnu llinell derfyn rhwng y mewnol a'r allanol, rhwng yr ysbrydol a'r materol, rhyngof *i* a'r hyn nad wyf *fi*. O synfyfyrio felly, a'r cwsg bellach ymhell, ehedodd fy meddwl yn ol i'r bwthyn diaddurn yn ymyl y nant, a'm disgwyl hir am Santa Claus, ac er imi ei ddisgwyl nes cau o'm llygaid ar fy ngwaethaf ni ddaeth erioed tra disgwyliwn, ond gadawodd ambell anrheg brin ger fy ngobennydd.

* * * * *

Lawer tro ceisiais esbonio Santa Claus, ond yn ofer. Nid yw'n wiw esbonio pob peth fel y gwn yn dda erbyn hyn, ond daw yna gyfnod pan chwelir popeth cyfrin. Y mae dyn am godi cwr y llen, ond siomedig ydyw wedi'i chodi. Daw yna ysfa ynom i beidio bod yn blant *mwy*, a rhaid dal Santa Claus. O'm blaen y mae darlun lliwiedig o waith Ernest Prater, a elwir 'Santa Claus Unmasked.' Nid yw ond darlun syml ddigon, ond esbonia fy meddwl. Gwelaf ynddo ystafell wely, a dwy eneth fach yn cysgu. Y maent wedi hongian eu hosanau'n barod, a rywbryd tua hanner nos y mae Santa Claus yn dod, a'r goreu am dani yw ei fod yn gwybod beth a garent fwyaf. Y mae'n gosod *Doll* brydferth yn hosan y fechan, a *Teddy Bear* ar y gobennydd, ond ag yntau'n llanw hosan yr hynaf, cyn gosod *Doll* brydferth ynddi y mae cyffro yn y gwely yn ddiarwybod iddo. Y mae'r eneth hynaf ar ei phenliniau'n gweld nad yw Santa Claus ond ei thad, a thybiaf ei bod yn siomedig. Geilw'r arlunydd y darlun yn 'Santa Claus Unmasked,' a chredaf fod yr anrhegion yn llawer llai eu gwerth yngolwg yr

eneth fach o wybod mae'i *thad* oedd Santa Claus.

* * * * *

Ond os yn siomedig am y tro daw yna dro ar fyd eilwaith, a sicr fod llawer o'm darllenwyr fel finnau wedi cyrraedd y trydydd gyfnod. Daw'r Nadolig yn ei dro fel cynt, ond rywsut y mae'n wahanol. Ni ddywedaf na ddaw rhyw law garedig i lanw'r hosan, ond gwn na ddaw mo Santa Claus mwy. Trois ar y dde ac ar y chwith, ond yn ofer. Ni ddoi cwsg na Santa Claus. Cydymdeimlaf a'r fechan yn y darlun. Gwn iddi gael ei siomi, ond gwn ragor, gan y daw yna adeg, os caiff fyw pan edifarhao am iddi edrych lawr ar Santa Claus, a phan fydd fel finnau yn hiraethu am weld Santa Claus fel yr oedd gynt. Gwn i mi ei weld neithiwr yn ei lifrai, ond nid y wyneb a garwn, na'r llaw a'm hanwylodd ganwaith oedd ganddo. Yr oedd fy hosan yn wag, mae'n wir, y mae'n wag er's blynyddoedd bellach, ond y mae nghalon yn wacach, ac o na fedrai rhyw Nadolig ddwyn fy Santa Claus yn ol i mi.

II.

Y mae yna gyfnodau felly ynglyn a llawer peth heb law Santa Claus. Pwy ddydd ymgomiwn a geneth ifanc pum mlwydd oed, ac yr oedd yn hen. Troes yr ymgom ar y seren fore a chân yr angel. Darluniai'r fechan y seren yn mynd i gyfeiriad Bethlehem, a rywsut ar fy ngwaethaf edrychwn i fyny. Er na welwn i mo'r seren, eto i'r fechan yr oedd cyn eglured a haul canol dydd, a chredaf na welodd yr un seryddwr a'i ysbienddrych seren yn y nef mor eglur ag y gwelodd llygad y fechan ei Seren Ef. Ond os oedd y seren yn *blaen* iddi, yr oedd gartref gyda'r angelion, a medrai'u darlunio nes peri i'm llygad pŵl i weld ymyl eu gwisg. Yr oeddent mor wyn, mor brydferth, mor agos. Clywais son am gân adar Rhiannon, am gân Patti, a Melba, a Caruso. Clywais gân yr ehedydd ar dorriad dydd, ond nid oedd eu nodau hafal i nodau cân yr angel yn ol yr eneth fach. Yr oedd ei chlust mor deneu fel na chollid un nodyn o'r gân, ac nid yw'n syn i'r bugeiliaid wylltu os oedd y gân hanner cyn felysed iddynt hwy ag i'r eneth fach. Braidd na chlywwn i yn nerth ei ffydd rhyw adlais wan ar gân, a cheisiwn ddychmygu fy hun yn ol ym more bywyd, a'm llygaid yn ddigon clir i weld ei Seren Ef, a'm clust yn ddigon teneu i glywed cân yr angel nes rhoi taw ar bob amcan yng ngeiriau'r bardd,—

'Paid Reswm yn rhy agos ddod,
Ni elli ddal y gwynder ;
Ond gad i Ffydd a minnau fod
Yng nghwmni'r engyl tyner ?

Ni bu erioed felly. Gwelais lawer dydd o haf yn agor yn fore—yn rhy fore, a chyn hanner dydd yr oedd cymylau duon yn y nef. Y mae ffydd syml gan y plentyn, ond daw amser i dynnu'r llen yn ol, ac yna gall pob un ddywedyd, '*My mind is clouded with a doubt.*' Daw yna holi ac amau, ac ni fedrir cysoni llawer peth. O ddechreu chwalu, ni wyddys ble y gorffennir ; ond rhaid i ddyn ieuanc amau a phrofi, a chamsyniad yr eglwys yw collfarnu y neb a amheuo, oherwydd yngeiriau'r Athro Jowett—'Daw amheuaeth drwy'r ffenestr pan wrthodir ymchwil wrth y drws.' Amheuais y seren lawer tro, a bu'r nen imi'n ddi-seren droion. Nid ydoedd ei Seren Ef ond comed ar wyllt yn carlamu drwy'r eangder. Ni fynnwn y gwyddai hi am eni Mab y Saer. Credwn fy mod wedi deall cyfrinach y ser. Ni fedrwn ei hesbonio a diflannodd yn y niwl. Run fath yn union gyda'r angel. Nid oedd lle i angel yn fy myd i. Ni allwn ddychmygu ei waith na'i neges, ac yr oedd ei gân a'i adanedd yn anesboniadwy imi—

'O waelod anobaith llefais
Am oleu ar dynged dyn,
A'r unig ateb a gefais
Oedd atsain fy llef fy hun.

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR • YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGYDD—

Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL XXI.
1921.

LLANDYSSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNWYSIAD.

Aberdar, Telynorion, 92.
Adolygiad — Dysgeidiaeth y Pum Llyfr, 27.
Adran yr Ysgol Sul, 140, 158.
Annerchiad, 99.
Ar Aden Ffydd, 1, 17, 49, 97, 129, 145, 161. 177.
Ar Ddiwrnod Gwlawog, 130.
Arholiad yr Ysgol Sul, 91, 169.
Ar Lanau Glowon, 18.
A ydyw'r Byd yn Gwella, 42.

Bore'r Gwynfydau, 177.
Bywyd, 184.
Barddoniaeth—
Aberth Rhieni, 161.
Atgo Annwyl am Miss Jones, Aldergate, 139.
Bugail Eiddwen, 32.
Dechreu Blwyddyn, 1.
Diolch am y Cynhauaf, 145.
Mynydd Duw, 65.
Nid goreuon dyn, ond goreuon Duw, 17.
O Dduw, rho im' dy hedd, 49.
P'un ydych chwi ? 177.
Rhaid Dringo, 192.
Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws, 97.
Y Milwr Dienw, 96.
Ymson Ffydd yn y Fagddu, 160.
Yr hen bobl, 12.

Capel y Bryn, Cwrtnewydd, Hanes, 10, 22.
Cledlyn—Tarddiad y Gair, 29, 95.
Crist a'r Credoau, 146.
Cyfarfodydd Blynyddol, 123.
Cyfarfodydd Chwarterol, 77, 168.
Cyn-filwr a Chymdeithas, 108.
Cynghorion i Bregethwyr Ieuainc, 16.

Dan Stôn, 59.
Dante, Chwe' - chan' - mlwyddiant marwolaeth, 143.
Dysgeidiaeth y Pum' Llyfr, 27.

Edwards, Adgofion am Syr Owen M., 33.
Eglwys y Dyfodol, 115.
Euog, ai Rhydd, 169.

Fyrddin, Rhai o Oriau yr Hen, 149.

Geiriadur Newydd, 98.
Gweddi, 129.
Gwersi ar Efengyl Marc, 171, 182.
Gwilym Marles, 120, 133.

Hathren, 56.
Hela Cwâl, 86.
Hen Dderwen Llwynrhydowen, 143.
Homili Fer, 5.

Iolo Morganwg, 165, 169.
Iorwerth Gwilym, 158.

Jefferson, Thomas, 12.
Jenkin Lloyd Jones, 135, 151.
John Huss, 106.
John Jones, y Parch., Aberdar, 6, 24, 74.

Manion ac Hanesion, 15, 47, 64, 80, 95, 111, 142, 158, 176, 191.
Marwgofion, 13, 31, 45, 61, 93, 109, 125, 141, 157, 173, 190.
Mis ar Grwydr, 39, 54, 70, 79.

Oddiar y Twr, 2.

Pregeth, 187.
Pregeth gan y Parch. Cellan Evans, 102.
Pregeth, "Ti yw y Gwr," gan y Parch. Oswald Williams, 116.
Priodasau, 13, 30, 45, 61, 73, 108, 124, 141, 157, 173, 190.
Pwlpud Undodaidd Cymreig, Rhagolygon, Y, 7, 82.

Rebecca Jones, 185.
Rhai o Enwogion yr Hen Fyd, 166.
Rhifo'r Bobl, 143.

Seintiau Dienw, Anghofiedig, 113.

Teulu o Brydyddion, 57.
Thomas Stephen, Merthyr, 112.
Ty ar y Tywod, 180.

Y Dwr Llwyd, 178.
Y Gwybedyn Glas, 162
Y Gymanfa Gerddorol, 88.
Yr Eira Cyntaf, 28.
Ysbryd Iesu, 5.
Ysbrydoliaeth, 52.
Ysbryd y Disgyblion, 5.
Ysgol Sul, Cynhadledd yr, 122.
Y Tywydd, 50.

Dywedais yn flin nad ydoedd
Bywyd yn werth ei fyw,
Mai damwain oedd bod a bydoedd,
Mai breuddwyd dyn ydoedd Duw.'

Wrth geisio esponio popeth, with geisio profi popeth, y mae'n berigl i ni golli'r sylwedd, ond erbyn heddyw y mae'r cyfan wedi cyfnewid. O bob liyfr a ddarllenais yn ystod y Rhyfel Mawr ni chyffyrddodd yr un a'm calon fel 'The Comrade in White.' Gwn nad ffaith mohono. Son y mae'r awdur fod y milwyr gyda'r nos yn gweld *rhywun* yn dod yn ei wŷn. Taniai'r gelyn arno, ond yn ofer. Deuai i ddiddanu rhyw glwyfedig. Gynt ni chredwn mohono. Heddyw mi a'i credaf yn fy ystyr i, a chredaf fod y 'Comrade in White' yn fwy *real* i galon y sawl a'i gwelodd nag y bu Crist erioed. Felly gyda'r Seren a chân yr angel. Yr wyf innau erbyn hyn wedi gweld y seren. Nid oes yr un seryddwr wedi'i henwi na'i lleoli ond y mae yna—yn fy arwain i ac y mae'n ddisglair, bron cyn ddisgleiried a seren yr eneth fach.

Lawer tro hefyd wrthof hun yn fy myfyrgell, yr wyf wedi clywed lleisiau o bell. Pe taech chwi yno, ni chlywech mohonynt, ond yr wyf fi'n eu clywed ac yn eu hadnabod, a medraf heddyw glywed cân yr angel—'the sound of a voice that is still.' Daw'r gân i ddyfnhau'r profiad, ac i felysu bywyd. Ni chlyw pawb mohoni'r un fath, i un llais plentyn ydyw, i arall llais câr neu gyfaiil, i bobun rhyw sisialon o fyd yr ysbryd yn torri ar yr enaid. Medrwn un ac oll glywed cân yr angel, ond tawelu dwndwr y byd, a chadw'r clust a'r galon, 'In tune with the Infinite,' ac o na welai dynoliaeth y Nadolig hwn ei Seren Ef yn arwain a chlywed cân yr angel yn addo 'Tangnefedd ar y ddaear, ac i ddynion ewyllys da.'

T. W. O.

DEWINIAETH.

Rhywbeth rhyfedd yw y gred mewn dewiniaeth. Credid, a gaf fi ddweyd credir, y gallai dewin wneud pethau rhyfedd, y gallai reibio, y gallai ddadreibio, hynny yw y gallai niweidio neu wneud lles i ddyn ac anifail, o leiaf fe gredai'r bobl hynny. Nid wyf yn gwybod fod dim wedi ei gyhoeddi yn y Gymraeg ar y pwnc o Ddewiniaeth, oddigerth pamphledyn bychan a ysgrifennwyd gan Mr. David Evans, ysgolfeistr yn Llandyssul, 1858.

Dichon fod peth gwir yn yr hyn sydd wedi ei ddweyd a'i ysgrifenu ar y pwnc, ond y mae'n sicr fod llawer iawn o rywbeth arall. Cawn fod y pwnc yn cael ei olrain yn ol ym mhell iawn, gan rai at amser y Derwyddon, ac fod y Derwyddesi yn flaenllaw iawn yn y mater. Yn y bymthegfed ganrif ymddengys fod y gred mewn dewiniaeth yn gyffredin ym mysg pob dosparth o bobl. Credai'r werin wrth gwrs, ond credai'r bobl gyfoethog hefyd, y rhai a dybid eu bod yn ddysgedig. Wele enghraifft: Mae'r Esgob Jewel yn ysgrifennu at y Frenhines Elizabeth yn 1598, ac yn dweyd fod "dewiniaeth wedi cynyddu yn ddirfawr yn y pedair blynedd blaenorol, fod ei deiliaid yn dihoeni hyd farw, eu lliw'n ymgolli, eu cnawd yn pydru, eu lleferydd yn pallu, eu synwyrau yn dyrysu. Gweddiaf ar Dduw na fo ei ddylanwad yn cyrraedd ym mhellach nag at y deiliaid."

Pan gyhoeddodd y Pab Innocent VIII. ei lythyr yn erbyn dewiniaeth yn 1459, cynhyrfwyd y bobl yn anghyffredin ym mhob man. Aethant megis ynfydion, a dywedir i gan' mil gael eu gosod i farwolaeth yn

ystod y tri chan' mlynedd dilynol.

Ond i beidio rhagymadroddi'n fwy nag sydd angen, gwell i ni frysio rhagom. Wrth ddarllen yr hanes fel y mae yn 1 Samuel xxviii, deuwn o hyd i enwau Samuel, Saul, a Dafydd—tri enw cynhefin ddigon i'r rhai sy'n gyfarwydd a'u Beibl. Mae hanes pob un o'r tri yn ddyddorol, adeiladol, awgrymiadol, yn dal cysylltiad agos a'u gilydd, ac yn rhywfodd yn arwain at bwnc ein penawd —Y Wraig o Endor. Sylwer nad oes dim am dani fel dewines yn y Beibl. Dyna Samuel, fe leinw le mawr yn hanes ei genedl, a lle anrhydeddus ag ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi. Efe ddaru wneud Saul yn frenin—brenin cyntaf yr Iddewon, gwr ieuanc dewisol a glan, ac nid oedd neb o feibion Israel lanach nag ef; o'i ysgwyddau i fyny yr oedd yn uwch na'r bobl (1 Samuel ix. 2).

Cawn i Saul fod yn frenin llwyddiannus a phoblogaidd am dymor; ond ym mhen tipyn y mae rhywbeth yn dod i fewn i'w hanes nad yw yn hawdd ei esponio. Mae teimlad Samuel yn oeri tuag ato, ac fel canlyniad mae yn ei anwybyddu. Darllenwn fel hyn: Ond yspryd yr Arglwydd a giliodd oddi wrth Saul, ac yspryd drwg oddi wrth yr Arglwydd a'i blinodd ef (xvi. 14). Mae yn digalonni, a meddiennir ef gan iselder yspryd. Cred fod ei orsedd mewn perygl. Ymofyna am help o lawer cyfeiriad. Daw Dafydd i ganu'r delyn iddo. Gwna hynny yn fynych. Mae Saul yn cael ei ddiddanu a'i gysuro. Daw i hoffi Dafydd yn fawr. Ond y mae Dafydd yn tynnu sylw'r cyhoedd, yn lladd Goliath, ac yn ennill clod fel milwr. Clyw Saul y dorf yn canu: "Lladdodd Saul ei filoedd, a Dafydd ei fyrddiwn." Mae hyn oll yn achosi blinder i Saul ac yn peri iddo eiddigeddu ac i geisio lladd Dafydd. Gwyr Dafydd fod ei fywyd mewn perygl, a cheidw oddi ar y ffordd. Mae llu'r Philistiaid yn bygwth, a Saul yn ofni ac yn teimlo ei wendid. Byddai'n falch i gael cyngor a help crefyddol Samuel, ond y mae Samuel wedi marw. Gan hynny y mae Saul yn ymofyn a Duw, trwy'r proffwydi, trwy freuddwydion, a thrwy Urim*, gan nad beth oedd ystyr hynny. Methodd Saul a chael ateb boddhaol. Rhoddwn yma beth o'r hanes yn debyg fel y mae yng ngyfieithad Samuel Sharp.—1 Samuel xxviii.

3. A Samuel a fuasai farw, a holl Israel a alarasent am dano ef, ac a'i claddasent yn Rama, sef yn ei ddinas ei hun. A Saul a yrasai ymaith boteli llefaru [y llais-daflyddion—*ventriloquists*] a'r dewiniaid o'r wlad.

4. A'r Philistiaid a ymgynullasant, ac a ddaethant ac a wersyllasant yn Sunem. A Saul a gasglodd holl Israel yn nghyd, a hwy a wersyllasant yn Gilboa.

5. A phan welodd Saul wersyll y Philistiaid, efe a ofnodd, a'i galon a ddychrynodd yn ddirfawr.

6. A phan ymgynghorodd Saul a Jehofah, nid atebodd Jehofah iddo, na thrwy freuddwydion, na thrwy Urim, na thrwy broffwydi.

7. Yn y dywedodd Saul wrth ei weision, Ceisiwch i mi wraig sydd yn berchen ar botel llefaru, fel yr elwyf ati, ac yr ymofynwyf a hi. A'i weision a ddywedasant wrtho, Wele, y mae gwraig sy'n berchen ar botel llefaru yn Endor.

8. A Saul a newidiodd ei ddull, ac a wisgodd ei ddillad eraill; ac efe a aeth, a dau wr gydag ef. A hwy a ddaethant at y wraig liw nos. Ac efe a ddywedodd, Dewinia, atolwg i ni drwy y botel llefaru, a dwg i fyny ataf fi yr hwn a ddywedwyf wrthyt.

9. A'r wraig a ddywedodd wrtho ef, Wele, ti a wyddost yr hyn a wnaeth Saul, yr hwn a ddifethodd y poteli llefaru a'r dewiniaid o'r wlad.

---

* Urim a Thummin. Fe'i desgrifir gan rai fel math o goelbren neu lotri—Urim yn golygu *euog*, a Thummin *di-euog*.

Paham gan hynny yr ydwyt ti yn gosod magl yn erbyn fy einioes i, i beri i mi farw?

10. A Saul a dyngodd wrthi hi i Jehofah, gan ddywedyd, Fel mai byw Jehofah, ni ddigwydd i ti niwed am y peth hyn.

11. Yna y dywedodd y wraig, Pwy a ddygaf i fyny atat ti? Ac efe a ddywedodd, Dwg i mi Samuel i fyny.

12. A'r wraig, pan ganfu Samuel, a lefodd a llef uchel. A'r wraig a lefarodd wrth Saul, gan ddywedyd, Paham y twyllaist fi? canys ti yw Saul.

13. A'r brenin a ddywedodd wrthi hi, Nac ofna; canys beth a welaist ti? A'r wraig a ddywedodd wrth Saul, Gwelais dduw* yn dyrchafu o'r ddaear.

14. Yntau a ddywedodd wrthi hi, Pa ddull sydd arno ef? A hi a ddywedodd, Gwr hen sydd yn dyfod i fyny, a hwnnw yn gwisgo mantell. A gwybu Saul mai Samuel oedd efe, ac efe a ostyngodd ei wyneb i lawr, ac a foes-ymgrymodd, &c. &c.—1 Samuel xxviii.

O'r braidd yr ystyriaf fod cyfieithad Mr. Sharpe yn help i ddeall yr hanes. Gedy ni lawn mor dywyll ag o'r blaen ym mherthynas i'r prif bersonau. A gaf fi awgrymu fod yma faes i'r ysprydegwr i chwareu ynddo?

R. J. J.

---

* Duw—yn cyfeirio at ysprydd Samuel. Elohim yw'r gair gwreiddiol.

BRASLUN O WERSI AR YR EFENGYL YN OL MARC.

GWERS IX.—Iesu a'r Sabath Iddewig (Marc II. 23—28).

Ymhell yn ol, cyn i'r Iddewon ddod i Ganaan, yr oedd y rhaniad o amser i wythnosau o saith niwrnod yr un yn hen sefydliad ymhlith trigolion Mesopotamia; hefyd, fe gadwent y seithfed dydd fel dydd gorffwys. Dyna, yn debygol, wir darddle'r Sabath Iddewig. Pan ddaeth cyndeidiau cenedl Israel i Ganaan, mabwysiadwyd y rhaniad hwn ar amser ganddynt; a daeth y seithfed dydd, iddynt, yn ddydd cysegredig ac yn sefydliad crefyddol. Yn yr H.D., rhoddir dau reswm dros ystyried y seithfed dydd yn gysegredig: (1) fel dydd coffa am waredigaeth y genedl o'r Aifft (Deut. v. 15); (2) am y dwedid yn stori'r Cread yn Gen. i. fod Duw wedi gorffwys oddiwrth ei holl waith ar y seithfed dydd (Ex. xx. 11). Darllener Gen. i.: un o storïau'r hen amser. Yr oedd y Sabath mor gysegredig iddynt fel na wnelent un gwaith ond oedd raid ei wneud. Dyna drosedd y disgyblion. Adrodder manylion y digwyddiad. Sylwer sut y cyfiawnhaodd Iesu'r hyn wnaed gan y disgyblion: (1) trwy alw sylw at yr hyn wnaeth Dafydd ar amgylchiad neillduol (adn. 25, 26; hefyd, 1 Sam. xxi. 1—7); (2) trwy roi mynegiad i well syniad parthed yr iawn ddefnydd o'r Sabath: fod y Sabath i fod yn sefydliad gwasanaethgar i ddyn, ac nid fod dyn i fod yn gaethwas i arferiad. Sylwer mai y dydd cyntaf o'r wythnos yw "dydd cysegredig" y Cristionogion.

GWERS X. - Iesu yn dewis disgyblion (Marc III. 13—19).

Yn gynnar yn ei weinidogaeth, dewisodd (galwodd) Iesu bum disgybl. Enwer hwynt Yn ddiweddarach dewisodd ddeuddeg. Enwer y saith. Dau reswm dros eu dewis : (1) "Fel y byddont gydag ef"—yn gymdeithion iddo ; (2) "fel y danfonai efe hwynt i bregethu" Dim ond tri o'r deuddeg ddaw i'r golwg yn amlwg yn yr hanes—Petr, Iago, ac Ioan. Tebyg iddynt oll ei ddilyn yn agos hyd y terfyn ; yn yr adeg olaf, bu'r oll yn anffyddlon iddo ; gwadwyd ef gan Petr, a bradychwyd ef gan Judas. Ar ol marwolaeth Iesu, ail-ymaflodd Petr yn y gwaith o bregethu ; ac o hynny hyd derfyn ei fywyd, bu'n un o genhadon mwyaf llafurus Cristionogaeth.

GWERS XI.—Iesu a'i deulu (Marc III. 21, 31—35).

Yr oedd i Iesu bedwar o frodyr ac amryw chwiorydd (gweler Marc vi. 3). Enwer y brodyr. Ceir profion yn yr Efengylau fod ei deulu yn elyniaethus i Iesu ; ystyrient ef "allan o'i bwyll" (adn. 21). Sylwer ar fanylion y digwyddiad (adn. 31—35). Nid oes yma, fel yr honna rhai, un prawf y mynwesau Iesu deimlad angharedig tuag at ei fam a'i frodyr. Eithr ni allai ganiatau i hyd yn oed ei deulu i fod yn rhwystr iddo yn y cyflawniad o'i waith. Rhoddodd yr amgylchiad iddo gyfleustra, hefyd, i roi mynegiant i wirionedd pwysig : y berthynas uwch (ysbrydol) eill fodoli rhwng y rhai a ddeuant i fyny â'r amod—gwneud yr Ewyllys Ddwyfol.

GWERS XII.—Dameg yr Hauwr a'i Dehongliad (Marc iv 1—13 ; 14—20).

Sylwer ar fanylion y ddameg (adn. 1—13). Llefarodd hi, yn debygol, ar lan Mor Galilea. Sylwer ar (1) faintioli'r llyn, (2) rhai o'r trefydd a'r pentrefydd ar ei lan, (3) yr afon red drwyddo, (4) ansawdd y wlad o'i amgylch, (5) galwedigaethau'r bobl drigent ar ei lannau. With hau, syrthiodd peth o'r had (1) "ar fin y ffordd," (2) "ar greigle," (3) "ymhlith drain" : Eglurer yr ymadroddion hyn. Hefyd, yr ymadrodd "un deg ar hugain, ac un drigain, ac un gant." Methodd y disgyblion ddeall y ddameg, felly fe'i heglurodd iddynt : gweler adn. 14—20. Sylwer yn fanwl ar yr eglurhad. Un wers bwysig : mai yr hwn "sydd yn gwrandaw y gair, ac yn ei dderbyn, ac yn dwyn ffrwyth," yw'r gwir ddisgybl i Grist. Gwers arall : mai mater o ddatblygiad (o dyfiant) yw'r bywyd Cristionogol. Beth yw datblygiad ?

SAFON IV.—Y Tair Efengyl gyntaf.

Y mae yn y T.N. bedwar hanes am Iesu—Mathew, Marc, Luc a Ioan. Dwg y tair gyntaf debygrwydd mawr i'w gilydd—o ran cynnwys, trefn yr hanes, &c. Y mae'r bedwerydd Efengyl, ar y tu arall, yn hollol wahanol : (1) hanes Iesu yn Galilea yn cynnwys y rhan fwyaf o'i tair gyntaf ; (2) hanes Iesu yn Judea yn y rhan fwyaf o'r bedwerydd ; (3) ni chofnodir yr un o'r damhegion na'r bregeth ar y mynydd yn y bedwerydd ; (4) nid oes son am (o leiaf) dair rhan o bedair o gynnwys Efengyl Ioan yn y tair gyntaf. Yn y tair gyntaf y deuwn agosaf at Iesu (hwy ysgrifennwyd gyntaf) ; ond y mae'r bedwerydd yn werthfawr ar gyfrif ei meddyldrychau aruchel, a naws ysbrydol ei chynnwys.

MARWGOFION.

HYDREF 26, yn Llundain, yn 49 oed, bu farw Josua Davies, mab ieuengaf y diweddar John a Mary Davies, Cefncoed, plwyf Llanwenog. Anfoddhaol fu ei iechyd er's blynyddoedd—dioddefai'n erwin ar brydiau oddiwrth yr *asthma;* ond gyda'r eithriad o ambell adeg o seibiant a achosid gan ei anhwylder, dilynodd ei alwedigaeth ymron hyd y diwedd. *Draper* ydoedd wrth ei alwedigaeth, a bu'n gwasanaethu yn amryw o faelfaoedd y brifddinas er pan yr aeth yno'n gymharol ieuanc; ar adeg ei farwolaeth, yr oedd yn oruchwyliwr yn y faelfa y gwasanaethai ynddi, ac yn fawr ei barch gan ei feistriaid. I'r genhedlaeth ieuanc bresennol ym mro ei enedigaeth, nid oedd yn adnabyddus; ond y mae yno lawer o'i gyfoed, a da ydoedd gan y cyfryw ei weled ar ei ymweliadau achlysurol (blynyddol yn ddiweddar) â'i gartref. Nid oedd ond prin mis er pan y dychwelodd i'r brifddinas o'i ymweliad olaf. Ychydig feddyliem wrth ffarwelio ag ef fod ei ddiwedd mor agos. Bachgen serchus, o deimladau dymunol iawn ydoedd, ac yr oedd cylch ei adnabyddiaeth yn hoff iawn o bono. Gadawodd mewn galar ar ei ol briod a dwy chwaer, ynghyd a pherthynasau agos eraill. Claddwyd ei weddillion yng Nghladdfa Marylebone.

TACHWEDD 27, yn 40 mlwydd oed, bu farw Richard John Rees, Felindre-Isaf, Pencarreg. Nid oedd yr ymadawedig wedi mwynhau iechyd da er's tro, a daeth y diwedd wedi cystudd caled. Amaethwr cyfrifol ydoedd, yn hannu o hen deulu parchus, ac yr oedd iddo air da gan bawb fel cymydog caredig a dyn tyner-galon. Y dydd Iau canlynol daearwyd ei weddillion marwol ym mynwent Brondeifi, a thystiai'i angladd am ei barch. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. Rhuddwawr Davies, D. Jones, a D. Evans, yn y capel gan y Parchn. R. C. Jones, E. Evans, D. Jones, a D. Davies, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, B.A. Gadawodd weddw ieuanc ac un mab teirblwydd oed, ynghyda brodyr a chwiorydd, a llu o berthynasau ereill i alaru eu colled am briod hawddgar, am dad cariadlawn, ac am frawd caredig.

RHAGFYR 2, yn dair blwydd oed, bu farw Thomas Cynfyn, mab Mr. a Mrs. Tom Rees, Rhydygwin, Craigcefnparc, Clydach, wedi cystudd byrr, er loes i galon ei dad a'i fam. Claddwyd ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, B.A.

> "Siwrnai fer, os ofer oedd
> Siwrnai ofer sy' i'r nefoedd."

RHAGFYR 18, yn 83 mlwydd oed, bu farw Anne Davies, Llwynifan Cottage, Cellan, ger Llanbedr, wedi cystudd byrr. Yr oedd ein chwaer wedi mwynhau iechyd neillduol ar hyd y blynyddoedd, ac er iddi weld blynyddoedd hir, gwelir ei lle yn wâg iawn. Yr oedd yn un o golofnau cryfaf hen Eglwys Caeronen. Ni welid byth mo'i lle'n wâg. Mynychai'r Ysgol Sul yn rheolaidd, a pharod oedd ei hateb bob Cymanfa. Ni bu neb ffyddlonach i'w heglwys a'i hegwyddorion. Yr oedd bob amser yn barod, ac nid aelod distaw mohoni. Yr oedd yn gymeriad ar ei phen ei hun, *true to Nature* chwedl Wil Bryan, ac yr oedd o galon garedig, a gwnaeth ei rhan yn ei hoes a'i dydd. Y dydd Iau canlynol gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni i orwedd ym mynwent Caeronen (yr angladd yn anghyhoedd). Gwasanaethwyd gan y Parchn. R. C. Jones a T. O. Williams, B.A., a phregethodd yr olaf oddiar y geiriau,

"Ffyddlon iawn yn fy nhy i," "Llawn o'i ogoniant Ef," "Nid yw Duw'n anghofio eich gwaith a'r llafurus gariad." Gadawodd fab a nith a ystyriai fel merch, chwaer oedd yn cydfyw a hi, brodyr, wyrion, a llu o berthynasau i wylo'n gymhedrol am un gawsant gadw yn hir.

RHAGFYR 19, yn 83 oed, bu farw Mrs. Sarah Jones, 10 Clettwr Terrace, Pontsian. Yr oedd yr ymadawedig yn chwaer i'r diweddar Mr. Evan Evans, Pwllffein, ac yn y Gwrdymawr, Llanybyther, y bu yn byw am flynyddoedd, hyd oni analluogwyd hi gan afiechyd a llesgedd, pryd y daeth at ei merch i ofalu am dani, lle y bu farw. Bu yn wraig ddiwyd a darbodus, a llawer o rinweddau y teulu, o ba un yr hanai, yn perthyn iddi. Y dydd lau dilynol, daearwyd ei gweddillion marwol ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

RHAGFYR 26, yn un-wythnos-arddeg oed, bu farw yn ddisymwth Mary Anita, baban cyntaf-anedig Mr. David Rees a Mrs. Rees, Tanrhiw, ger Cwrtnewydd. Claddwyd y Mercher canlynol ym mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams. "Nid yw ewyllys y Tad gyfrgolli yr un o'r rhai bychain hyn."

MANION AC HANESION.

Dymunwn i holl ddarllenwyr "Yr Ymofynydd," Flwyddyn Newydd Dda, yn llawn o'r bendithion goreu.

YR YMOFYNYDD. — Ar ddechreu blwyddyn newydd, carem apelio yn daer at holl ddosbarthwyr YR YMOFYNYDD, ynghyd â pob un sydd yn dymuno ei lwyddiant, ar iddynt wneud ymdrech er lledaenu ei gylchrediad. Y mae y Golygydd wedi gorffen un-flynedd-ar-hugain yn ei wasanaeth, ac ni fuasai dim yn llonni ei galon yn fwy na gweled ei gylchrediad yn eangu. Gydag ychydig o gydweithrediad ac ymdrech, buasai yn bosibl ei wneud yn fwy o ddylanwad yn ein plith. Carem gydnabod gyda diolchgarwch yr hyn sydd wedi cael ei wneud gan ein gohebwyr ffyddlon a'n dosbarthwyr. Diolchwn yn fawr iddynt am eu llafurus gariad.

ADRAN YR YSGOL SUL. – Cydnabyddir o Llwynrhydowen, £1 15s.; o Hen Dy Cwrdd, Aberdar, 5s.

ANRHYDEDD.—Y mae yn llawenydd gennym weled enw Mr. D. R. Llewelyn, Aberdar, ymhlith y rhai gafodd eu hanrhydeddu ddechreu'r flwyddyn gan y brenin. Adnabyddir ef mwy fel Syr David R. Llewelyn, Barwnig. Y mae ei enw yn adnabyddus iawn, nid yn unig yn y cylch Undodaidd, ond drwy yr holl wlad, ar gyfrif y safle bwysig y mae wedi ennill iddo ei hun ym masnach lô Deheudir Cymru. Y mae hefyd yn Drysorydd y Brifysgol yng Nghaerdydd, ac wedi gwasanaethu am flynyddoedd y swydd o Drysorydd yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar. Dymun-

em ei longyfarch ef ynghyd â Lady Llewelyn ar yr anrhydedd arbennig hwn. Ac nid ydym am anghofio ei fam – Mrs. Llewelyn, y Bwllfa, yr hon sydd yn llawenhau yn nyrchafiad ei mhab. Bydded iddo flynyddoedd lawer eto i fod o wasanaeth i'w wlad, i'w genedl, ac i grefydd yn yr ystyr oreu.

CAPEL Y GRAIG, LLANDYSSUL. Nos Sul cyntaf y flwyddyn, ar ddiwedd y gwasanaeth, cynhaliwyd cyfarfod arbennig er rhannu cronfa y *Penny Bank* rhwng aelodau'r Ysgol Sul. Rhanwyd y swm anrhydeddus o £308 gan y swyddogion—Miss Evans, Station Road, a Miss Jones, Cwmmeudwy, y rhai fu yn gofalu yn ffyddlon am y sefydliad hwn yn ystod y flwyddyn. Rhanwyd hefyd wobrwyon i'r plant fu yn mynychu yr Ysgol am 45 o Suliau ac uchod, gan yr arolygwr, Mr. Herbert Jones, Morfa House.

CELLAN.—Hwyr Sul, Rhagfyr 18, yn Ysgoldy Esgerlas, cafwyd gwasanaeth arbennig er dymuno'n dda i'r Parch. T. O. Williams, B.A., a'i anrhegu ar ei briodas ag *Electro-Plated Silver Coffee-maker*, fel dangoseg fechan o barch iddo. Nid yw'r Ysgoldy bychan yn perthyn i un enwad, ac yr oedd y rhodd felly yn rhodd arbennig ac yn dod o'r galon, a thrueni na thrwythid holl eglwysi'n gwlad ag ysbryd rhyddfrydig a Christionogol Esgerlas.

LLANBEDR.—Nos Wener, Rhagfyr 23, daeth aelodau Brondeifi yn gryno, ar waethaf yr hîn, i'r Ysgoldy er estyn croeso ffurfiol i'r Gweinidog a'i briod, a'u anrhegu ar eu priodas â *Solid Oak Roll Top Desk* a Chadair hardd, ac arni'n ysgrifenedig, "Rhodd Eglwys Brondeifi i'w gweinidog, y Parch. T. O. Williams, B.A., ar ei briodas. Medi 27ain, 1921." Etholwyd G. J. Davies, Ysw., Penlan, i'r gadair, a chafwyd ganddo ef, a chan yr Henadur David Davies (maer y dref), a Mr. Timothy Evans, ddymuniadau goreu'n eglwys. Trosglwyddwyd y rhodd mewn araith o adgofion melys a phrofiad dwfn gan y Parch. R. C. Jones, a chanodd Mrs. M. A. Davies a Miss Myfanwy Davies eu dymuniadau goreu. Ymadawodd pawb wedi awr ddiddan a hapus.

HELA HERESI. — Crewyd cryn gyffro yn ddiweddar yn y byd crefyddol gan waith Prifathro Ripon Hall, Rhydychen, ac offeiriad yn Eglwys Lloegr, yn dweyd mai yn ysbrydol ac nid yn gorfforol yr adgyfododd Iesu Grist. Dywedir y bydd iddo gael ei dreial am yr heresi hwn gredir gan lu o offeiriaid ac eraill, ond nad oes ganddynt ddigon o wroldeb i gyhoeddi yr hyn gredant.

PHARISEAETH.—I'm tyb i, eithaf prin o ysbryd brawdgarwch ydyw llythyr a ymddangosodd yn ddiweddar yn y 'Llan,' uwchben y ffugenw 'Lleygwr.' Dyma fel y rhed: 'Meddylier am leygwr o safle ysgolfeistr, y lleygwr yma yn meddu cariad at ei Eglwys, ac wedi treulio dwy neu dair blynedd mewn Coleg, ac wedy'n yn treulio dwy flynedd mewn Coleg er cymhwyso ei hunan i'r Eglwys, ac yn gadael cyflog ysgolfeistr, a blwydd-dal hafaidd ei urdd er mwyn yr Eglwys am lai o lawer o gyflog. Lle mae y Dic, Tom a Harri o leygwyr i gael cystadlu a lleygwr a rydd yr aberth yma? Yma cawn Eglwysyddiaeth, buchedd, ac uwchlaw pob peth wybodaeth. Y mae'n bosibl i'r Ymneilltuwyr yn eu hoes ddygymod a'r Parch. John Jones, Crydd, ond yn yr Eglwys—Arglwydd Esgob, y parchus offeiriad, a diacon.' Yn fy meddwl i, nid anheg a fyddai arall-eirio'r frawddeg olaf ond un, a'i gwneuthur i ddarllen fel hyn: Yma cawn Pharisëaeth, ffroth, ac uwchlaw pob peth *anwybodaeth*.—CLEDLYN.

CREFYDD YN YR YSGOLION ELFENOL.—At y Gol.—Syr, mae mudiad ar droed i geisio dwyn i fewn i ysgolion Cymru a Mynwy yr hyn a alwant yn Addysg Grefyddol, a theimlaf finnau ei bod yn ddyledswydd arnaf i brotestio. Nid yw iawn i ddefnyddio arian y trethdalwyr i gyfranu addysg nad ydynt o bosibl yn credu ynddo. Beth os dywedant fod y byd wedi ei greu mewn chwe diwrnod, os

yw hynny yn wir, nid crefydd mo hono. Neu os dywedant fod Iesu wedi ei eni yn Bethlehem, gall hynny, fod yn ddigon diniwed, er ei fod yn cael ei amau heddyw, eto nid crefydd yw hynny. Carwn wybod pa nifer o athrawon y dydd heddyw fedrant ateb Beth yw Crefydd. Am yr hyn sy'n mynd dan yr enw Trefn Iachawdwriaeth—achub *by machine* y galwai Watcyn Wyn ef—nid crefydd mo hono, ond math o dduwinyddiaeth sydd i mi yn mhob rhan o hono yn wrthwynebus iawn. Busnes y cartref a'r eglwys yw edrych ar ol crefydd y plant, ac nid busnes y trethdalwyr fel y cyfryw. Nid wyf fi foddlon i dalu treth i ddysgu y namyn un erthygl deugain y Llyfr Gweddi, nac ychwaith i ddysgu Pum Pwnc John Calfin.—R. J. J.

CADOEDIAD 1920.—Dydd Iau, Tachwedd 11, 1920, y dydd y geilw y Sais yn "Armistice Day," digwyddodd i mi fod mewn tref fawr yn Lloegr. Fel pob tref fawr yr oedd hefyd yn dref fyw. Yr oedd pob un fel pe bae ar ei ore yn brysio gyda'i orchwyl a'i waith. Tref fasnachol oedd, gyda swn a dwndwr masnach ar bob llaw. Nid oedd hynny oll yn ddim syndod i mi; ond gyda bod y gloch yn taro un ar ddeg; yn ddisymwth iawn dyna gyfnewidiad yn cymryd lle, a distawrwydd megys distawrwydd y bedd yn teyrnasu ar bob llaw.

Profiad rhyfedd oedd, ac un oedd braidd yn anodd sylweddoli ei ystyr. Mi wyddwn beth fwriedid, ac yr oeddwn mewn llwyr gydymdeimlad. Nid oedd amheuaeth am hynny.

Coffa ydoedd am y brodyr ieuainc a aethant allan ac a aberthasant eu bywydau yn yr ymgais i amddiffyn ac i achub eu gwlad rhag dinystr y gelyn. Yr oeddynt yn lluaws mawr, a chyrraeddasant y terfyn yn nyddiau bore bywyd. Mae pob un o honynt, o bosibl, wedi gadael rhywun neu rywrai ar ol yn eu galar. Ac wele ninnau yn cynnal coffa diolchgar am y milwyr sydd felly wedi blaenu am eu gwasanaeth gwerthfawr a'u haberth hunanymwadol o blaid eu cyff a'u cenedl. Ar yr un pryd nis gallwn lai na chydymdeimlo a'u perthynasau sydd ar ol yn eu tristwch a'u galar. Y fam, druan, pwy all ddesgrifio teimladau honno? Y tad, y brawd, y chwaer, a'r cyfeillion fil, teimlant oll i wahanol raddau, ac eto, rhywsut, teimlir fod yno foddlonrwydd dirgel yn cydfynd a'r coffa cyhoeddus.—O.

Aeth rhai tadau i Gehenna
Am gasglu cyfoeth a cham elwa;
A'u plant eilwaith sy'n mynd yno,
Am eu gwasgar a'u camdreulio.

Bu'n edifar fil o weithiau,
Am lefaru gormod geiriau;
Ond ni fu cymaint o beryglon
O lefaru llai na digon.

Pencader. IAGO AB DEWI.

AROS, FFRYND!

Aros, ffrynd! Os gwella'r byd
Ydyw dy ddyhëad,
Tafl yr hunan balch o'th fryd,
Na fydd Pharisëad.
Gardd dy galon, dyna'r fan
Iti ddechreu chwynnu;
Bydd yn onest, gwna dy ran,—
Daw'r gwellhâd, trwy hynny.

Os diwyllio'r byd yw'th nôd,
Dyro *di* gychwyniad,
Ac yn llyfr dy fynwes, dôd
Bob rhyw oleu syniad;
Llanw bob dalen, heb ystaen,
Fel y gallot noddi
Eraill ar eu ffordd ymlaen,—
Rhaid it' gael, cyn rhoddi.

CLEDLYN DAVIES.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

Just Published by THE LINDSEY PRESS.

The New Testament & Modern Life

By S. H. MELLONE, M.A., D.Sc.

Cr. 8vo. 280 p.p. Cloth, 6/- net.

Prof. JAMES MOFFAT, M.A., D.Litt., writing in the *British Weekly*, says:—"It is a genuine pleasure to read Dr. S. H. Mellone's new book . . . he applies critical judgment to the records, and combines with it a fine moral judgment, which enables him to present positive results. . . . I call it without hesitation a good book, not because it always convinces, but because its method is so trustworthy, and its outlook so sane."

The *Times Literary Supplement* speaks of Dr. Mellone's book as "an acute and scholarly study," and the *Glasgow Herald* describes it as "both a live and a learned book."

In this book the author's endeavour has been to indicate as concisely and as clearly as possible the ethical import of the most significant parts of the New Testament, and the directions in which the resulting principles bear upon modern life and civilisation.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,
Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

— For —

Overcoats and Winter Goods

... at half-prices ...

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

S. B. Murray F. Hyde E. W. Woolley

Subscribed Capital	£38,116,815
Paid-up Capital	10,860,565
Reserve Fund	10,860,565
Deposits *(June 30th, 1921)* ..	371,322,381

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager: T. M. JONES

Over 1550 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2

YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 2.] CHWEFROR, 1922. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

STIGMATYDDIAETH.

Y MODDION GOREU I WELLA YR YSGOL SUL.

BRASLUN O'R GWERSI.

EFENGYL IESU GRIST A'R DYDD PRESENNOL, &c.

MARWGOFION

MANION AC HANESION.

AT EIN GOHEBWYR.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 4s. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

GWEITHIAU DR. TUDOR JONES

An Interpretation of Rudolf Eucken's Philosophy.
Price - - 5s.

The Spiritual Ascent of Man.
Price - - 2s. 6d.

The Training of the Mind and Will.
Price - - 2s. 6d.

The Making of Personality.
Price - - 2s. 6d.

What Philosophy is.
Price - - 2s. 6d.

Yr oll i'w cael o—

SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.